

EDRYCH AR GELFYDDYD

Mae edrych ar a meddwl yn ofalus am waith eraill yn eich helpu i'w ddeall ac yna archwilio'r hyn yr ydych yn ei weld trwy eich celfyddyd eich hunan. Mae'r esiamplau isod i gyd o gasgliad Storiel / Prifysgol Bangor ac i weld ar wefan Art UK.

Nid yw ymateb o 'Dwi'n hoffi hwn' neu 'Dwi ddim yn hoffi hwn' heb eglurhad neu gyfiawnhad yn ddadansoddiad, barn bersonol ydyw. Mae disgrifiad yn rhan bwysig o'r astudiad, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun.

Bydd gan y rhan fwyaf o gelfwaith sy'n cael ei arddangos mewn orielau ac amgueddfeydd wybodaeth wrth ei ochr neu ar ddechrau'r arddangosfa i roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol i chi am yr artist a'r gwaith. Wrth i chi ddod at gelfwaith, mae'n ddefnyddiol ystyried pryd, pam, sut a lle y crëwyd y gwaith a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar y celfwaith.

- Pa 'naws' arbennig sydd i'r celfwaith a beth sy'n rhoi 'teimlad' arbennig iddo?
- A yw teitl y darn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydych yn edrych ar neu'n deall y gwaith?



John Baum – Cwm Prysor © yr arlunydd



Nora Lee - Glaslyn Valley © y daliwr hawlfraint



Robert Fowler - Rocks at Llandudno

EDRYCH AR GELFYDDYD

Pwnc

A yw'r celfwaith yn perthyn i 'genre' (h.y. portread; tirlun; bywyd llonydd; ffantasi; hanesyddol ayyb)?

A oes yna unrhyw leoedd, golygfeydd neu wrthrychau adnabyddadwy? Sut mae'r rhain yn cael eu cyflwyno (e.e. yn realistig; wedi eu symleiddio ayyb)?



Frank Brangwyn - Carnarvon Castle
© stâd yr arlunydd / Bridgeman Images



Dennis Creffield - Castell Caernarfon
© stâd yr arlunydd

A yw pobl yn cael eu dangos yn y celfwaith? Pwy ydyn nhw? Beth allwn ni ei ddweud amdanyd nhw?

A yw'r celfwaith yn dweud stori, neu rhoi neges?

A oes gwrthrychau eraill yn y celfwaith sydd yna i bwrrpas penodol? A oes yna ystyr arall neu symbolaeth i'r gwrthrychau hyn?



Alan Mc Pherson – Head No.9
© yr arlunydd



Mrs Jane Jones o Ynysgwin a'i merch Anne



Eben Fardd – Evan Williams

EDRYCH AR GELFYDDYD

Defnydd o gyfryngau a deunyddiau

Beth mae'r artist wedi ei ddefnyddio i wneud y celfwaith? A yw'r deunyddiau wedi eu gwneud yn amlwg? Pam y dewiswyd y cyfryngau hyn?
Pa nodweddion mae'r dewis o gyfrwng yn gyfrannu at y gwaith celf?

Fformat a gosodiad

Beth yw maint, siâp a gosodiad y celfwaith yn gyfan gwbl ee. fertigol, llorweddol, crwn neu sgwâr? Neu os ee. mewn ffrâm, ar banel neu ddefnydd, yn syth ar wal?
A yw'r fformat hwn wedi ei ddewis am resymau ymarferol neu esthetig?

Beth yw maint, siâp a gosodiad y celfwaith yn gyfan gwbl (h.y. fertigol, llorweddol, portread, tirlun neu sgwâr)? A yw'r fformat hwn wedi ei ddewis am resymau ymarferol?

Marciau a llinellau

Pa fathau o farciau neu llinellau a wnaed yn y gwaith, e.e. syth, llyfn, pigog, trwchus, tenau, ysgafn, trwm, rhydd, cywrain?

Pa effaith mae'r defnydd hyn o farciau neu linellau yn gyfrannu i'r gwaith celf?

A allwch adnabod sut neu beth a wnaed y marciau neu'r llinellau?



Mary Fogg – Looking Down
© yr arlunydd



Dan Llewelyn Hall - The Wreckage
on Carnedd © yr arlunydd



Brenda Chamberlain - Grey
Beast © yr arlunydd

EDRYCH AR GELFYDDYD

Siâp a ffurf

Ellwch chi adnabod siapiau a ffurfiau penodol yn y gwaith?

A oes ailadrodd siapiau a ffurfiau?

Beth yw effaith siâp neu ffurf yn y gwaith e.e. arwain y llygaid, creu rhythm, creu canolbwynt, creu cymesuredd neu anghymesuredd?



Edith Lawless - Part of South transept Bangor Cathedral © y daliwr hawlfraint

Tôn, golau a lliw

A ddefnyddiwyd amrediad eang o liwiau golau neu dywyll, goleubwyntio a thonau canol, neu a yw'r amrediad tonyddol yn gyfyngedig? Beth yw effaith hyn?

Pa liwiau sydd fwyaf blaenllaw a pha fath o awyrgylch neu effaith mae hyn yn ei greu?



Elfyn Lewis - Gestiana
© y daliwr hawlfraint



Betty Pamela Neal - Dream of Macsen Wledig
© y daliwr hawlfraint



Anthony Goble - Boy from Bethesda © stâd yr arlunydd

EDRYCH AR GELFYDDYD

Gwead, arwyneb

A oes yna weadau neu arwyneb diddorol yn y celfwaith e.e. llyfn, garw, sgleiniog, afloyw, bas, twfn

Pa effaith mae'r gwead neu'r arwyneb yn gael ar y celfwaith?

Gofod

A oes gofod neu ddimensiwn/ddyfnnder yn perthyn i'r gwaith?

Sut mae'r celfwaith yn ffitio i'r gofod go iawn o'i gwmpas?

Oes disgwyl i'r gwylwr symud trwy'r celfwaith?

Oes angen edrych i fyny yn uchel neu yn isel i weld y gwaith?

Cofiwch fod y cwestiynau hyn i'ch helpu i ddechrau meddwl am y gelfyddyd yr ydych yn dod ar ei thraws. Gall fod nifer o wahanol atebion i'r cwestiynau hyn, a gall pobl yn aml anghytuno ynglŷn a'u ymateb hwy i'r celf â bwriadau'r artist. Mae'n well gan lawer o artistiaid beidio ag egluro eu gwaith gan ffafrio rhoi rhyddid i bawb ymatebyn unigol iddo. Nid oes angen teimlo bod ymateb personol neu eu casgliadau hwy am y gwaith yn 'anghywir' mewn rhyw ffordd oherwydd eu bod yn wahanol i fwriad yr artist.

Hawlfraint bob ffotograff yn y ddogfen yma yn perthyn i Amgueddfa & Oriel Storiol Bangor



EDRYCH AR GELFYDDYD